**Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol**

**(CLA(4)-22-12)**

**Adroddiad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol**

**CLA184**

**Teitl: Gorchymyn Cyrff Cyhoeddus (Cyflenwad Dŵr ac Ansawdd Dŵr) (Ffioedd Arolygu) 2012**

**Gweithdrefn: Uwchgadarnhaol**

Mae'r Gorchymyn hwn yn darparu i ffïoedd fod yn daladwy gan gyflenwr dŵr perthnasol am gyflawni swyddogaethau penodol o dan Ddeddf y Diwydiant Dŵr 1991 gan arolygydd a benodir gan Weinidogion Cymru o dan y Ddeddf honno.

**Craffu technegol**

Ni nodwyd unrhyw bwyntiau i fod yn destun adroddiad o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

**Craffu ar rinweddau**

Nodwyd y pwyntiau canlynol i fod yn destun adroddiad o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.-

Er bod y pwnc (cyfrifo ffioedd archwilio a rhai cysylltiedig) yn un sy'n fwy tebygol o fod mewn offerynnau statudol sy'n ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol, mae'r offeryn hwn yn ddarostyngedig i'r weithdrefn uwchgadarnhaol yn rhinwedd adran 19 o Ddeddf Cyrff Cyhoeddus 2011.

Gwneir gorchmynion i'r un diben ar gyfer Cymru a Lloegr, ond oherwydd bod y pwerau galluogi yn wahanol, defnyddir dau offeryn yn hytrach nag un ar y cyd. Mantais hyn yw bod y ddeddfwriaeth sy'n gymwys i Gymru yn cael ei gwneud yn ddwyieithog.

[ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Cynulliad - Rheol Sefydlog 21,3(ii)

**Cynghorwyr Cyfreithiol**
**Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol**

**Hydref 2012**